| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd<br>(Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd) |
| **DYDDIAD** | 24 Mehefin 2016 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2015/16, a<br>• Ffurflen datganiadau cyfrifon, wedi'i ardystio, ond cyn archwiliad |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon |
| **AWDUR** | William E Jones, Uwch Reolwr Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

1.1 Fel adroddwyd mewn blynyddoedd a fu, mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor 'arweiniol' sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â chyllid Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn).

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn llai na £2.5miliwn, ystyrir y cyd-bwyllgor yn "gyd-bwyllgor bach" a rhaid paratoi'r cyfrifon ar ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

1.6 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad gan Deloitte, archwilwyr allanol apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 2. CYFRIFON 2015/16

2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2015/16 yma fel Atodiad A** ar ffurf adroddiad “alldro” syml.

2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y ffurflen datganiadau cyfrifon am 2015/16 (cyn archwiliad), wedi’i gwblhau a’i ardystio** gan Dafydd L Edwards, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

2.3 Bydd y cyfrifon a’r ffurflen yn destun archwiliad buan gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i’r Cyd-Bwyllgor ar 23 Medi 2016.

2.4 Ar ôl archwiliad ac unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio’r ffurflen cyn 30 Medi.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 **Gofynnir i’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn a chymeradwyo’r wybodaeth sydd yn yr atodiadau**, sef –

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2015/16 – Atodiad A
- Ffurflen datganiadau o’r cyfrifon 2015/16, ar gyfer archwiliad – Atodiad B